



Rhondda Cynon Taf

Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2022-2037

Revised Local Development Plan 2022-2037

Cytundeb Cyflawni

Mawrth 2022



Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2022 – 2037

Cytundeb Cyflawni

Mawrth 2022

CYNNWYS

	Tudalen
1. Cyflwyniad	1
2. Yr Amserlen	8
3. Cynllun Cyfranogiad Cymunedol	12
4. Methodoleg a Thechnegau Ymgynghori	17
5. Amserlen a Dulliau Ymgysylltu Arfaethedig	25
Atodiadau	
1. Manylion Cyswllt	41
2. Rhestr o Gyrff Ymgynghori	42
3. Rheoli Risg	53
4. Proffil a Nodweddion y Boblogaeth Leol	56
5. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru	64
6. Rhestr Termau	67

1. CYFLWYNIAD

1.1. Y Cynllun Datblygu Lleol

- 1.1.1. Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer ardal yr Awdurdod Lleol. Mae'r ddogfen yn darparu'r strategaeth ddatblygu a fframwaith polisi ar gyfer cyfnod penodol y cynllun. Mae'n ddogfen cynllunio defnydd tir bwysig fydd yn llywio a rheoli datblygiad, gan ddarparu'r sail o ran sut mae ceisiadau cynllunio yn cael eu penderfynu. Unwaith iddo gael ei fabwysiadu, mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn rhoi sicrwydd i gymunedau'r Fwrdeistref Sirol lle y bydd datblygiad dros gyfnod y cynllun. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol hefyd yn sicrhau bod egwyddorion creu lleoedd a chynaliadwyedd wrth wraidd y broses creu cynlluniau, gan adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 1.1.2. Mae'r Cyngor wedi paratoi Adroddiad Adolygiad lle mae cynnydd y CDLI presennol wedi'i ystyried. Daeth yr Adroddiad i'r casgliad bod angen CDLI diwygiedig. Cafodd hyn ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2020. Mae'r Cyngor bellach yn paratoi CDLI diwygiedig a fydd yn cwmparu cyfnod y cynllun 2022-2037. Y cam cyntaf yw paratoi Cytundeb Cyflawni yn unol â Rheoliad 9 o Reoliadau Cynllun Datblygu Lleol (Cymru) 2005.
- 1.1.3. Bydd CDLI presennol 2006-2021 yn parhau i gael ei ddefnyddio er mwyn penderfynu ar geisiadau cynllunio.
- 1.1.4. Mae'r Cytundeb Cyflawni yma wedi'i baratoi yn ystod pandemig byd-eang Covid-19. Bydd y Cyngor yn glynu wrth Reoliadau'r Llywodraeth o ran Covid-19; mae hyn yn cynnwys cadw pellter cymdeithasol a cheisio dulliau ymgynghori arloesol yn ystod y cyfnod yma. Os bydd cyfleoedd ychwanegol yn dod i'r amlwg yn ystod proses paratoi'r cynllun, yn enwedig wrth i gyfyngiadau barhau i gael eu llacio, bydd y Cyngor yn ymdrechu i ymateb i'r rhain.

1.2. Beth yw Cytundeb Cyflawni?

- 1.2.1. Mae Cytundeb Cyflawni yn adnodd rheoli prosiect a rhaid bod ganddo ddwy ran, sef yr Amserlen a'r Cynllun Cyfranogiad Cymunedol. Bwriad y Cytundeb Cyflawni yw pennu cyfranogiad cynnar a llawn yr Awdurdod Cynllunio Lleol yng ngwaith paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Rhaid i'r Cytundeb Cyflawni gael ei lunio cyn gwaith paratoi ffurfiol y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'n rhan bwysig a chyfreithiol o broses paratoi'r Cynllun. Unwaith iddo gael ei gymeradwyo, mae'r Cytundeb Cyflawni yn ymrwmo'r Awdurdod Cynllunio Lleol i lunio neu ddiwygio'i gynllun yn unol â'r amserlen a phrosesau ymgysylltu â'r gymuned.
- 1.2.2. Mae gan y Cytundeb Cyflawni yr adrannau canlynol:

Adran A – Yr Amserlen Rheoli Prosiect ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig: Mae'r amserlen yn cynnwys manylion am gamau paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol a sut bydd y broses creu cynlluniau yn cael ei rheoli. Mae'n nodi, a hynny mewn ffordd realistig, yr hyn y gall yr Awdurdod ei wneud o fewn yr amserlen gyda'r adnoddau ariannol a staffio sydd ar gael, yn ogystal â'r

fframwaith corfforaethol y bydd y cynllun yn cael ei baratoi yn unol ag ef. Mae'r amserlen yn nodi'n glir pryd bydd pob cam o'r broses paratoi'r cynllun yn cael ei gynnal.

Adran B – Y Cynllun Cyfranogiad Cymunedol: Mae'r Cynllun Cyfranogiad Cymunedol yn nodi egwyddorion, strategaeth a mecanweithiau'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer cyfranogiad cynnar a pharhaus rhanddeiliaid cymunedol yng ngwaith paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Bwriad y Cynllun Cyfranogiad Cymunedol yw dangos sut, pwy a phryd y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ceisio barn ei randdeiliaid gan gynnwys ei gymunedau, wrth i'r Cynllun Datblygu Lleol fynd rhagddo. Llunir y Cynllun Cyfranogiad Cymunedol i wneud y mwyaf o gydweithio rhwng y Cyngor a'i randdeiliaid. Trwy wneud hyn, bydd yn cyflawni ei ddyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

1.2.3. Mae rhestr termau i'w gweld yn Atodlen 6.

1.3. Camau Paratoi'r Cytundeb Cyflawni

1.3.1. Wrth baratoi'r Cytundeb Cyflawni, mae gofyn am nifer o gamau sydd i'w gweld isod, yn ogystal â'u hamserlenni:

- Paratoi dogfen y Cytundeb Cyflawni gan gynnwys yr amserlen a'r Cynllun Cyfranogiad Cymunedol. (Rhagfyr 2021)
- Adrodd gwleidyddol i'r Cabinet i geisio cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni ac ymgynghori arno (Ionawr 2022).
- Ymgynghori ar y Cytundeb Cyflawni (Chwefror 2022).
- Diwygiadau i'r Cytundeb Cyflawni ar ôl ymgynghori a pharatoi'r ddogfen derfynol gychwynnol. (Chwefror 2022).
- Adrodd gwleidyddol ar y Cytundeb Cyflawni a'i gymeradwyo gan benderfyniad y Cyngor (Mawrth 2022).
- Gosod y Cytundeb Cyflawni ger bron Llywodraeth Cymru i'w gymeradwyo (Mawrth 2022)
- Cyhoeddi'r Cytundeb Cyflawni cymeradwy. Sicrhau bod y ddogfen ar gael i'r cyhoedd ei harolygu. Dechrau swyddogol proses y CDLI (Ebrill 2022)
- Adolygu'r Cytundeb Cyflawni yn rheolaidd.

1.4. Paratoi Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig

1.4.1. Wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig, bydd y Cyngor yn bwriadu cyflawni'r deilliannau allweddol canlynol;

- Cefnogi datblygiad cynaliadwy a lleoedd o ansawdd yn seiliedig ar Ganlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy, sy'n cyd-fynd â pholisi cenedlaethol (a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru) ac sy'n cynnwys Gwerthusiad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol/Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (SA/SEA/HRA), gan gynnwys y Gymraeg a gofynion DLICD 2015.
- Bod yn seiliedig ar gyfranogiad cymunedol cynnar, effeithiol ac ystyrlon, a bod yn sail iddo, er mwyn deall ac ystyried ystod eang o safbwyntiau, gyda'r bwriad o feithrin cydsyniad eang ar y strategaeth, polisïau a chynigion gofodol.
- Bod yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o rôl a swyddogaeth ardal(oedd) gan gynnwys cysylltiadau swyddogaethol ag ardaloedd y tu hwnt i ffiniau gweinyddol.
- Bod yn wahaniaethol trwy gynlluniau sy'n nodi'n glir sut bydd yr ardal yn datblygu ac yn newid, gan roi sicrwydd i gymunedau, datblygwyr a busnesau.
- Bod yn wydn i newid yn yr hinsawdd (gan ddefnyddio Amcanestyniadau Hinsawdd diweddaraf y Deyrnas Unedig, data risg llifogydd ac asesu gwendid) a chefnogi'r pontio i gymdeithas carbon isel yn unol â'r targedau a chyllidebau lleihau carbon diweddaraf fel y nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) (Rhan 2). Rhaid glynu wrth egwyddorion Creu Lleoedd, Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy a Hierarchaeth Ynni fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru.
- Sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a deddfwriaeth berthnasol arall.
- Cyflawni'r hyn a fwriedir trwy gynlluniau dichonadwy mae modd eu darparu, gan ystyried gofynion seilwaith angenrheidiol, hyfywedd ariannol a ffactorau marchnad eraill.
- Bod yn rhagweithiol ac ymateb i gynlluniau, cael yr wybodaeth ddiweddaraf a bod yn hyblyg i newidiadau.

(Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) Mawrth 2020)

- 1.4.2. Bydd paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig yn cynnwys ystyried canllawiau, polisïau a deddfwriaeth sy'n deillio o lefel Ewropeaidd, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig hefyd wedi'i lywio gan amcanion a nodir yng Nghynllun Llesiant Cwm Taf 2018-2023 o'r enw *Ein Cwm Taf*. Mae'r rhain wedi'u troi o gwmpas *cymunedau sy'n ffynnu, pobl iachus ac economi gref*, a'r amcan trawsbynciol sef *mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd*. Bydd y cynllun diwygiedig hefyd wedi'i ddylanwadu gan amcanion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yn *Ein Cwm Taf*, lle maen nhw'n berthnasol o ran cynllunio defnydd tir.

1.5. **Gwerthusiad Cynaliadwyedd sy'n cynnwys yr Asesiad Amgylchedd Strategol (SA/SEA)**

- 1.5.1. Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (a.62) yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gynnal Gwerthusiad Cynaliadwyedd o'i Gynllun Datblygu Lleol diwygiedig ac adrodd canlyniadau yn rhan annatod o'r broses creu cynlluniau. Mae angen i bolisiâu yn y cynllun fynd i'r afael â'r agweddau hynny o ddatblygu cynaliadwy trwy'r system cynllunio defnydd tir. Dylid ystyried goblygiadau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol yn llawn.
- 1.5.2. Yn ogystal â hyn, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gydymffurfio â Chyfarwydddeb gan yr UE 2001/42/EC a'r Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) sy'n gofyn am Asesiad Amgylcheddol Strategol ffurfiol o'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae cwrpas yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn gyfyngedig i effaith amgylcheddol.
- 1.5.3. Mae rhaid i'r Cynllun Datblygu Lleol gwreiddiol a'r fersiynau diwygiedig fod yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol. Ystyrir gan Lywodraeth Cymru mai ffordd addas o gynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol yw ei gynnwys yn y Gwerthusiad Cynaliadwyedd. Mae cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn y Gwerthusiad Cynaliadwyedd yn ofyniad statudol yng ngwaith paratoi Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig i asesu goblygiadau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd strategaeth a pholisiâu cysylltiedig y Cynllun yn llawn. Mae'r broses yn sicrhau bod polisiâu'r Cynllun Datblygu Lleol yn adlewyrchu egwyddorion datblygu cynaliadwy, a hynny wrth ystyried unrhyw effaith sylweddol y Cynllun ar yr amgylchedd.
- 1.5.4. Dylai proses y Gwerthusiad Cynaliadwyedd gael ei chynnwys yn llawn ym mhroses y Cynllun Datblygu Lleol a'i hadlewyrchu yn yr amserlen sy'n cyd-fynd â phob cam o'r broses paratoi'r cynllun. Mae elfennau o'r broses Gwerthusiad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol lle mae angen cynnal gwaith penodol ac mae angen gweld hyn yn glir o fewn y broses. Bydd y rhain yn cael eu hadlewyrchu yn yr amserlen a chynllun ymgysylltu.
- 1.5.5. Mae 5 prif gam yn y broses Gwerthusiad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae'r camau i'w gweld isod:
 - Cam A – Cwrpasu. Mae hyn yn pennu'r dystiolaeth sylfaenol ac yn nodi'r cyd-destun ac amcanion.
 - Cam B – Gwerthuso Dewisiadau Eraill. Datblygu a mireinio opsiynau ac asesu effaith.
 - Cam C – Asesiad o'r Cynllun Adnau a pharatoi Adroddiad Gwerthusiad Cynaliadwyedd
 - Cam Ch – Archwilio a Mabwysiadu
 - Cam D – Monitro. Monitro effaith sylweddol rhoi'r cynllun datblygu ar waith. (Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) Mawrth 2020)

1.6. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

- 1.6.1. Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ofyniad cyfreithiol o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (y 'Rheoliadau Cynefinoedd'). Rhaid i'r Awdurdod Lleol gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd er mwyn asesu

a fydd y polisïau a'r cynigion yn y Cynllun Datblygu Lleol yn cael unrhyw effaith sylweddol ar gyfanrwydd safleoedd dynodedig Ewropeaidd.

- 1.6.2. Fydd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ddim yn cael ei gynnwys gyda'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd o ganlyniad i ofynion deddfwriaethol gwahanol. Bydd ymgysylltu ac ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru yn rhan o broses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

1.7. Sail Dystiolaeth

- 1.7.1. Wrth lunio Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig, bydd angen cyfatebol i ddiweddaru neu adnewyddu nifer o astudiaethau/dogfennau sydd yn sail dystiolaeth y Cynllun Datblygu Lleol presennol, ac sy'n sail iddo. Yn unol ag Adroddiadau Monitro Blyneddol blaenorol, bydd angen ystyried holl newidiadau i gyd-destun, polisïau a deddfwriaeth ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, a hynny'n rhan o ddiweddariadau sail dystiolaeth. Mae'r rhestr isod yn dangos y meysydd y dogfennau sail dystiolaeth hynny y mae'n debygol y bydd eu hangen yn rhan o broses diwygiadau lawn y Cynllun Datblygu Lleol:

- Data Poblogaeth a Rhagolygon Tai
- Asesiad o'r Farchnad Dai Leol
- Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr
- Astudiaeth Capasiti Trefol
- Adolygiad Ffin Anheddiad
- Hierarchaeth Anheddiad Cynaliadwy
- Adolygiad Tir Cyflogaeth
- Diweddariad Astudiaeth Manwerthu
- Asesiad Seilwaith Gwyrdd
- Asesiad o Gyfyngiadau Amgylcheddol
- Asesiad o Fannau Agored Cyhoeddus
- Asesiad o Ynni Adnewyddadwy
- Asesiad Trafnidiaeth
- Tirwedd

- 1.7.2. Dydy'r rhestr ddim yn bendant nac yn gynhwysfawr gan ei bod hi'n bosibl y bydd angen tystiolaeth ychwanegol trwy gydol y broses creu cynlluniau.

- 1.7.3. Gan ystyried bod nifer o awdurdodau lleol yn Ne-ddwyrain Cymru wrthi'n symud cynlluniau diwygiedig yn eu blaenau, bydd y Cyngor yn ymdrechu i archwilio cyfleoedd i gydgomisiynu dogfennau sail dystiolaeth.

1.8. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

- 1.8.1. Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2015. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n fwy effeithiol gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldeb o ran iechyd a newid yn yr hinsawdd. Mae'r Ddeddf yn gosod saith nod llesiant y mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus eu bodloni. Dyma'r nodau:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

1.8.2. Rhaid dangos bod y Cynllun Datblygu Lleol yn cyfrannu at bob un o'r nodau yma. Bydd llunio'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd ochr yn ochr â'r cynllun yn darparu dealltwriaeth o sut mae modd gwneud yn fawr o'r cyfraniad yma.

1.8.3. Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi 5 ffordd o weithio y mae gofyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol eu dangos, sef 'yr hirdymor', 'cynnwys', 'integreiddio', 'atal' a 'cydweithredu'.

1.8.4. Fel gofyniad y Ddeddf, rhaid i Gynllun Llesiant Lleol hefyd gael ei lunio; mae gan Gyngor Rhondda Cynon Taf Gynllun Llesiant Cwm Taf 2018-2023, a grynhoir uchod.

1.8.5. Bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Cynllun Llesiant Lleol yn cael eu hystyried yn llawn trwy'r broses paratoi'r cynllun, gan gynnwys wrth ymgysylltu.

1.8.6. **Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040**

1.8.7. Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 yw cynllun datblygu cenedlaethol Cymru. Dyma'r cynllun datblygu lefel uchaf yng Nghymru a bydd angen i'r CDLI gyd-fynd â'r cynllun ac adlewyrchu ei nodau a'i amcanion.

1.9. **Profion Cadernid**

1.9.1. Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gynllun Datblygu Lleol fod yn destun archwiliad annibynnol i sicrhau bod y Cynllun yn gadarn. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru fydd yn penodi Arolygydd annibynnol i archwilio'r Cynllun. Bydd yr Arolygydd yn penderfynu p'un a yw'r Cynllun wedi'i lunio yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol a ph'un a yw'n cydymffurfio â'r Cynllun Cyfranogiad Cymunedol.

1.9.2. Bydd yr Arolygydd yn asesu ymhellach p'un a yw'r Cynllun yn bodloni'r gofynion paratoi a'r tri phrawf cadernid, sef:

- Ydy'r cynllun yn gweddu? – Ydy e'n gyson â chynlluniau eraill?
- Ydy'r cynllun yn briodol? – Ydy'r cynllun yn mynd i'r afael â phroblemau'r ardal?
- A fydd y cynllun yn cyflawni? – A fydd y cynllun yn effeithiol?

1.9.3. Mae angen sylfaenol am sail dystiolaeth gref a phroses ymgynghori. Mae hefyd yn hanfodol dangos y sail resymegol y tu ôl i bolisiau'r Cynllun ac asesu'r deilliannau. Bydd casgliadau'r Arolygydd yn yr adroddiad terfynol yn rhwymol o safbwynt yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Oni bai bod Llywodraeth Cymru yn ymyrryd, rhaid i'r

Awdurdod Cynllunio Lleol dderbyn y newidiadau a mynd ati i fabwysiadu'r Cynllun diwygiedig yng nghyfarfod llawn y Cyngor.

2. YR AMSERLEN

2.1. Cyflwyniad

- 2.1.1. Mae'r amserlen yn elfen hanfodol o baratoi cynllun. Mae'n sicrhau bod y cynllun yn cael ei lunio mewn ffordd effeithlon a strwythuredig. Mae amseroldeb yn fwy hanfodol fyth yn ystod diwygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol gan fod y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol bellach yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Cynllun diwygiedig gymryd llai na 3.5 blynedd (3.75 gan gynnwys llithriant) o'r cam cyntaf i'r broses fabwysiadu.
- 2.1.2. Mae dau gam i'r amserlen, y rheiny sy'n bendant a'r rheiny sy'n fynegol. Camau pendant yw'r rheiny hyd at a chan gynnwys y cyfnod adnau statudol. Mae camau yma'r broses yn cael eu rheoli'n uniongyrchol gan y Cyngor ac felly mae'r amserlen mor realistig â phosibl. Mae'r rhan yma o'r amserlen yn fwy cadarn gan fod modd monitro a rheoli'r broses yn fwy gofalus. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i osgoi gwyriadau oddi wrth yr amserlen gymeradwy yn ystod y camau yma. Lle bo angen gwyriadau, a hynny yn aml o ganlyniad i ffactorau y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol, mae cyfnod llithriant wedi'i gynnwys yn y broses. Mae angen i'r Awdurdod Cynllunio Lleol geisio cydsyniad Llywodraeth Cymru i alw'r cyfnod yma i rym.
- 2.1.3. Camau Mynegol yw'r camau y tu hwnt i'r cyfnod adnau statudol. Mae gan y Cyngor lai o reolaeth dros gamau diweddarach y broses gan eu bod nhw'n dibynnu ar nifer o ffactorau megis nifer y sylwadau y mae angen delio â nhw ac argaeledd yr Arolygiaeth Gynllunio. Bydd camau mynegol yr amserlen yn destun adolygiad wrth i'r Cynllun Datblygu Lleol fynd rhagddo. Bydd y Cyngor yn ymdrechu i gydweithio â'r Arolygiaeth Gynllunio gan roi gwybod am gynnydd y cynllun wrth iddo fynd yn ei flaen.

Tabl 1 – Camau Allweddol yng ngwaith paratoi Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig

Cam Allweddol	Dyddiad
Paratoi Cam Cyn-adneuo'r CDLI Diwygiedig gan gynnwys y Strategaeth a Ffefrir	O Ebrill 2022
Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir	Mehefin/Gorffennaf 2023
Paratoi'r CDLI Adneuo Diwygiedig	O Awst 2023
Ymgynghoriad ar y CDLI Adneuo Diwygiedig	Gorffennaf/Awst 2024
Gosod y CDLI Diwygiedig ger bron Llywodraeth Cymru	Tachwedd 2024
Archwiliad Annibynnol	Ebrill/Mai 2025

Mabwysiadu

Hydref 2025

Mae manylion pellach ar amserlenni arfaethedig ar gyfer paratoi'r cynllun i'w gweld yn **Nhabl 2**.

2.2. Rheoli Proses y Cynllun Datblygu Lleol

- 2.2.1. Bydd Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu yn ysgwyddo cyfrifoldeb cyffredinol dros gyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol. O ddydd i ddydd, bydd y Rheolwr Gwasanaethau Datblygu (Polisi Cynllunio) yn gyfrifol am reoli'r broses. O dan y Rheolwr Gwasanaethau Datblygu, bydd y Garfan Polisi Cynllunio'n gyfrifol am baratoi a llunio'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig, a hynny wrth ymgysylltu ag Aelodau ac adrodd ar y camau priodol.

Adnoddau

- 2.2.2. Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod digon o adnoddau ar gael er mwyn cyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol mewn ffordd effeithiol ac effeithlon. Mae'r Garfan Polisi Cynllunio, sy'n gyfrifol am lunio a chyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol, yn cynnwys:

Carfan bresennol y CDLI

- Rheolwr Gwasanaethau Datblygu (Polisi Cynllunio) (Gradd 15) x1
- Arweinydd y Garfan Polisi Cynllunio (Gradd 13) x1
- Uwch Swyddog Polisi Cynllunio (Gradd 11) x2
- Swyddog Polisi Cynllunio (Gradd 10) x1
- Cynorthwy-ydd Cynllunio a Swyddog Technegol (Gradd 8) x 1
- Cynorthwy-ydd Cynllunio (Gradd 9) x 1 – Swydd wag

- 2.2.3. Yn ogystal â'r garfan Cynllun Datblygu Lleol, tynnir ar swyddogion ac arbenigedd o adrannau amrywiol y Cyngor trwy gydol proses y Cynllun Datblygu Lleol. Mae hyn yn debygol o gynnwys cymorth gan adrannau Rheoli Datblygiadau, Cefn Gwlad, Priffyrdd, Tai, Adfywio, Addysg, Iechyd Cyhoeddus, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol, TGCh a'r Uned Gyfieithu.

- 2.2.4. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol hefyd yn defnyddio arbenigedd gweithwyr proffesiynol ar gyfer gwasanaethau arbenigol sydd eu hangen i lunio sail dystiolaeth gadarn i gefnogi gwaith paratoi'r cynllun. Er y bydd swyddogion y Cyngor yn ymdrechu i lunio cymaint o dystiolaeth â phosibl yn fewnol, bydd hi'n angenrheidiol penodi ymgynghorwyr allanol i gasglu'r astudiaethau arbenigol a thechnegol iawn hynny sydd eu hangen yn ystod y broses creu cynlluniau. Bydd cyfleoedd ar gyfer cydgomisiynu gwaith sail dystiolaeth yn cael eu hystyried lle bo modd.

- 2.2.5. Mae'r Cytundeb Cyflawni wedi'i lunio at ddiben llunio Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig ar gyfer Rhondda Cynon Taf yn unig. Serch hynny, mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i weithio'n rhanbarthol trwy baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol.

2.3. Cyllideb y Cynllun Datblygu Lleol

- 2.3.1. Bydd angen cyllideb amcangyfrifedig o £600,000 ar gyfer llunio'r cynllun a'i roi ar waith. Ystyrir bod modd cyflawni cyllideb ddigonol i alluogi gwaith llunio'r cynllun, a hynny yn unol ag amserlen y Cytundeb Cyflawni.

Cam	Cost Amcangyfrifedig
Cytundeb Cyflawni	Staff ac adnoddau presennol
Cyn-adneuo	£250,000
Adnau	£167,000
Cyflwyno ac Archwilio	£200,000
Mabwysiadu a Monitro Blynnyddol	£50,000
Cyfanswm	£667,000

Gofynion Cyllideb y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (Ddim yn ymwneud â staffio) (on Staffing)

Gofynion Sail Dystiolaeth	
Gwerthusiad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd	£70,000 yn ogystal ag Adnoddau Staff Mewnol (Mewnol)
Asesiad o'r Angen am Dai/	Mewnol + Ymgynghorwyr/Meddalwedd £20,000
Asesiad o'r Farchnad Dai Leol	Mewnol
Adroddiad Amcanestyniad Poblogaeth ac Anheddau a Senarios a Arweinir gan yr Economi	Mewnol + Ymgynghorwyr/Meddalwedd £20,000
Astudiaeth Capasiti Trefol	Mewnol
Asesiad Safleoedd Posibl	Mewnol
Adolygiad Tir Cyflogaeth	Mewnol + £25,000 Ymgynghorwyr
Asesiad Manwerthu	Mewnol + £25,000 Ymgynghorwyr
Astudiaeth Anghenion Seilwaith/Trafnidiaeth	Mewnol + £25,000 Ymgynghorwyr
Astudiaeth Hamdden	Mewnol
Astudiaeth Ynni Adnewyddadwy	Mewnol + £25,000 Ymgynghorwyr

Nodi Safleoedd Ecolegol	Mewnol
Asesiad Mannau Gwyrdd ac Asesiad Mannau Agored	Mewnol + £15,000
Asesiad Llain/Lletem Las	Mewnol + £10,000
Asesiad Mwynau	Mewnol + £10,000
Asesiad Gwastraff	Mewnol + £10,000
Asesiad Mannau Agored	Mewnol
Asesiad o Lety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr	Mewnol
Llifogydd – Strategol	Mewnol + £30,000
Tirwedd	Dibynnu ar angen
Asesiadau Hyfywedd	Mewnol + £70,000 Ymgynghorwyr/Meddalwedd
Cyfanswm y Sail Dystiolaeth	£355,000
Costau Eraill	
Cronfa Ddata'r Cynllun Datblygu Lleol	£42,000 Prynu meddalwedd
Mapio Ffurfiol	Mewnol + £10,000 Ymgynghorwyr (parhaus)
Deunydd ac achlysuron ymgynghori	Mewnol + £10,000 costau
Archwilio (Arolygiaeth Gynllunio a Swyddog Rhaglen)	£200,000
Mabwysiadu, cyhoeddi a monitro blynyddol parhaus	£50,000
Arall – Cyfanswm	£312,000
Cyfanswm Cyffredinol (ddim yn ymwneud â staffio) Gofyniad y Gyllideb:	£667,000

- 2.3.2. Mae cyllideb y Cynllun Datblygu Lleol sydd wedi cronni a heb ei gwario dros y blynyddoedd diweddar yn rhoi cyfanswm o £502,000 i ni. Byddai parhau â'r gyllideb flynyddol o £68,000 y flwyddyn trwy gydol gwaith paratoi'r cynllun yn bodloni'r angen yma. Mae hefyd yn caniatáu ar gyfer diffygion o ran costau arfaethedig, costau annisgwyl sy'n dod i'r amlwg yn ystod cyfnod llunio hir y Cynllun ac er mwyn bodloni ychydig ymrwymadau parhaus.

2.4. Asesu a Rheoli Risg

- 2.4.1. Mae'r Cyngor o'r farn bod ei amserlen yn realistig a bod modd cadw ati. Serch hynny, mae'r amserlenni, a gafodd eu pennu gan Lywodraeth Cymru, yn heriol, yn ogystal â heriau pellach yn sgil pandemig Covid-19. Mae'n anochel nad oes modd rhagweld elfen o risg allai achosi i'r cynllun wyro oddi wrth yr amserlen arfaethedig. Amlinellir rhagor o fanylion o ran risg a lliniaru posibl yn Atodiad 3.

3. CYNLLUN CYFRANOGIAD CYMUNEDOL

3.1. Cyflwyniad

- 3.1.1. Mae'r Cynllun Cyfranogiad Cymunedol yn nodi sut y mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn bwriadu ymgysylltu'n rhagweithiol â chymunedau/rhanddeiliaid lleol a'u cynnwys nhw yng ngwaith paratoi'r cynllun, a hynny'n rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig. Mae'r Cynllun Cyfranogiad Cymunedol yn rhoi gwybodaeth i bartïon â diddordeb ar sut mae'r Cyngor yn bwriadu ymgynghori â phartïon â diddordeb. Mae hefyd yn nodi gwybodaeth a sicrwydd ar sut a phryd mae modd i bobl ddweud eu dweud trwy gydol proses y Cynllun Datblygu Lleol.
- 3.1.2. Mae Rhondda Cynon Taf yn credu'n gryf bod ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid yn y broses creu cynlluniau yn sylfaenol i lwyddiant y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig. Bydd cyfranogiad cymunedol yn sylfaen bwysig o ran mynd i'r afael ag unrhyw broblemau dadleuol sy'n dod i'r amlwg yn rhan o'r broses, yn ogystal â helpu i gyfryngu. Bydd ymgysylltu o'r fath hefyd yn tynnu sylw at nodau a dyheadau ar y cyd ar gyfer y Fwrdeistref Sirol a dangos y tir cyffredin y mae modd meithrin cydsyniad.
- 3.1.3. Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) yn nodi y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol, wrth baratoi Cynllun Cyfranogiad Cymunedol, wneud y canlynol:
- Creu amodau ar gyfer cyfranogiad cynnar ac adborth ar gam lle caiff pobl lywio'r cynllun a dylanwadu arno, yn seiliedig ar y 5 ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
 - Annog ymrwymiad pob cyfranogwr i ddadl agored a gonest ar ddewisiadau datblygu realistig wrth chwilio am gydsyniad eang
 - Adnabod yr angen i fabwysiadu dulliau/technegau ar gyfer cynnwys y gymuned gyfan (grwpiau oedran, grwpiau gweithredu cymunedau lleol, grwpiau anodd eu cyrraedd a grwpiau â nodweddion gwarchodedig) gan gynnwys busnes, sy'n ceisio cynnwys y rheiny nad ydyn nhw fel arfer yn cymryd rhan
 - Fydd un dull cyffredinol i bawb ddim yn addas
- 3.1.4 Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi paratoi'r Cynllun Cyfranogiad Cymunedol yn ystod y pandemig Covid-19. Bydd y Cyngor yn glynu wrth ganllawiau a rheoliadau diweddaraf y Llywodraeth yn nhermau ei ddulliau ymgynghori megis rheolau cadw pellter cymdeithasol. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ymdrechu i ymgysylltu â'r gymuned mewn ffyrdd arloesol, a bydd yn adolygu'r dulliau wrth i waith paratoi'r cynllun fynd rhagddo. Mae'r Cynllun Cyfranogiad Cymunedol wedi'i lunio mewn perthynas â chyflawni'r egwyddorion yma.

3.2. Gwersi a ddysgwyd o'r Cynllun Blaenorol

- 3.2.1. Yn ystod gwaith paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol presennol, cafodd dulliau amrywiol eu defnyddio i ymgysylltu â holl bartïon â diddordeb. Roedd dulliau o'r fath yn cynnwys darparu gwybodaeth wedi'i hysgrifennu'n glir, yn ogystal â'r cyfle i drafod problemau, wyneb yn wyneb, â swyddogion y Cyngor. Ystyrir bod dulliau

ymgyngori blaenorol yn llwyddiannus gan ymgysylltu ag ystod eang o unigolion a sefydliadau. Mae'r holl ohebiaeth a ddaeth i law gan y Cyngor yn ystod y broses yn dystiolaeth o hyn.

- 3.2.2. Serch hynny, ers y Cynllun Cyfranogiad Cymunedol gwreiddiol, mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud. Mae'n bosibl y bydd y rhain yn gwneud y broses ymgynghori ac ymgysylltu'n fwy effeithiol fyth.
- 3.2.3. Y newid mwyaf ers yr ymgynghoriadau ar y cynllun blaenorol yw cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Cynllun Llesiant Cwm Taf. Felly bydd y dulliau ymgynghori a ddefnyddiwyd wrth lunio'r cynllun newydd yn cydymffurfio â'r dogfennau yma.
- 3.2.4. Mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi tyfu'n gyflym iawn ers y cynllun blaenorol yn ogystal â phresenoldeb y Cyngor ar-lein yn gyffredinol. Bydd y Cyngor yn archwilio pob cyfle i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn ystod proses y Cynllun Datblygu Lleol.
- 3.2.5. Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd gofyn am farn y genhedlaeth iau gan yr hoffai sicrhau ymgysylltu gwell o ran hyn. Mae hyn wedi'i wneud yn haws ers y cynllun blaenorol o ganlyniad i sefydlu Fforwm Ieuenctid RhCT.
- 3.2.6. O ganlyniad i'r sefyllfa bresennol gyda Covid-19, mae'n bosibl bydd angen ystyried sut y bydd rhai dulliau cyfranogi ac ymgysylltu, megis cyfarfodydd wyneb yn wyneb, yn cael eu trefnu i sicrhau bod rheoliadau Covid-19 y Llywodraeth yn cael eu bodloni. Bydd y Cyngor yn archwilio ffyrdd o wneud hyn a bydd y dulliau yma yn cael eu hadolygu wrth i ganllawiau'r Llywodraeth newid. Yn ogystal â hyn, bydd dulliau ar-lein yn cael eu defnyddio lle bo modd.
- 3.2.7. Yn ystod achlysuron ymgysylltu a gynhaliwyd yn ystod 2021 mae'r Cyngor wedi llwyddo i ddefnyddio meddalwedd fideo-gynadledda fel Teams a Zoom i gynnal cyfarfodydd, fforymau ac achlysuron eraill. Mae'r dulliau yma wedi bod yn llwyddiannus iawn ac yn ffordd effeithlon o ymgysylltu â nifer fawr o bobl. Bydd y Cyngor yn parhau i ddefnyddio'r dulliau yma lle bo'n briodol.
- 3.2.8. Yn ogystal â darparu gwybodaeth ar wefan y CDLI bydd y Cyngor hefyd yn defnyddio dulliau ymgynghori ar-lein fel y dudalen Dewch i Siarad i ymgysylltu â chymaint o bobl â phosibl.

3.3. Egwyddorion Ymgysylltu

- 3.3.1. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau cyfranogiad cymunedol ystyrlon. O ganlyniad i hyn, bydd yn sicrhau y bydd egwyddorion ymgysylltu'n cydymffurfio â'r safonau canlynol.
- 3.3.2. Yn ogystal ag egwyddorion y Ddeddf Llesiant, bydd egwyddorion Cynllun Llesiant Cwm Taf hefyd yn cael eu hadlewyrchu. Mae'r ddogfen yn nodi'r canlynol:
- 3.3.3. Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi cefnogi Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru. Mae'r egwyddorion a safonau wedi'u

datblygu a'u cefnogi gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cyfranogiad yn digwydd mewn ffyrdd cyson ac effeithiol.

- 1. Yn effeithiol, bwriad ymgysylltu yw gwneud gwahaniaeth –** Mae ymgysylltu yn gyfle i ddylanwadu ar bolisi, dylunio a chyflawni gwasanaeth o gam cynnar.
- 2. Annog a galluogi pawb sydd wedi'u heffeithio i gymryd rhan, os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny –** Mae'r bobl wedi'u heffeithio gan broblem neu newid yn cael eu cynnwys mewn cyfleoedd i ymgysylltu, a hynny fel oedolion neu'n rhan o grŵp neu gymuned. Hefyd, mae eu barn yn cael ei pharchu a'i gwerthfawrogi.
- 3. Mae ymgysylltu yn cael ei gynllunio a'i gyflawni mewn ffordd amserol a phriodol –** Mae'r broses ymgynghori yn glir ac wedi'i mynegi mewn ffordd sy'n hawdd ei deall o fewn amserlen resymol. Defnyddir y dull(iau) mwyaf addas i'r rheiny sy'n rhan o'r ymgysylltu.
- 4. Gweithio gyda sefydliadau partner priodol –** Dylai sefydliadau gyfathrebu â'i gilydd a gweithio ar y cyd lle bo modd i sicrhau bod amser pobl yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon.
- 5. Bydd yr wybodaeth a ddarperir heb jargon, yn addas ac yn hawdd ei deall –** Bydd pobl mewn sefyllfa well i gymryd rhan yn y broses ymgynghori gan y bydd hi'n haws iddyn nhw fanteisio ar wybodaeth berthnasol sydd wedi'i theilwra i fodloni eu hanghenion.
- 6. Ei gwneud hi'n haws i bobl gymryd rhan –** Gall pobl ymgysylltu'n hawdd gan y tynnir sylw at unrhyw rwystrau ac eir i'r afael â nhw.
- 7. Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol –** Dylai prosesau ymgysylltu geisio datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder pob cyfranogwr.
- 8. Mae'r adnoddau a chymorth priodol yn cael eu dynodi i ymgysylltu i fod yn effeithiol –** Mae'r hyfforddiant, cyfarwyddyd a chymorth priodol yn cael eu darparu i alluogi pob cyfranogwr i ymgysylltu'n effeithiol, a hynny'n cynnwys cyfranogwyr y gymuned a staff.
- 9. Mae pobl yn cael gwybod am effaith eu cyfranogiad –** Mae adborth amserol yn cael ei roi i bob cyfranogwr am ei farn a'r penderfyniadau neu gamau gweithredu sydd wedi'u cymryd o ganlyniad i hyn. Dylai dulliau o roi adborth ystyried a pharchu dewis y cyfranogwr.
- 10. Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses ymgysylltu –** Dylid monitro a gwerthuso profiad pobl o'r broses er mwyn mesur ei llwyddiant o ran ymgysylltu â phobl ac effeithiolrwydd y cyfranogiad hwnnw. Dylid rhannu gwersi a'u rhoi nhw ar waith wrth ymgysylltu yn y dyfodol.

- 3.3.4. Mae'r Cyngor hefyd yn datblygu Safonau Ymgynghori Corfforaethol fydd yn cael eu cyhoeddi'n hwyrach y flwyddyn yma. Bydd ymgynghori yn ystod y Cynllun Datblygu Lleol yn gyson â'r safonau dan sylw.

3.4. Pwy ddylai fod yn rhan o bethau?

- 3.4.1. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi ymrwymo i ymgysylltu ag unrhyw berson neu sefydliad â diddordeb mewn llywio dyfodol Rhondda Cynon Taf. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol, unwaith iddo gael ei fabwysiadu, yn cael ei ddefnyddio i lywio datblygiadau yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd hefyd yn adnodd gwneud penderfyniadau allweddol o ran ystyried ceisiadau cynllunio. Mae'r Cyngor felly'n annog unrhyw un sy'n dymuno mynegi ei farn i wneud hynny'n rhan o waith paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd y Cyngor yn ymdrechu i sicrhau bod y broses yn dryloyw, yn ymgysylltu ac ar gael i bawb.
- 3.4.2. Nodir y gofynion cyfreithiol ar gyfer cyfranogiad y gymuned a'r cyhoedd yn nhermau'r Cynllun Datblygu Lleol yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd 2015). Mae'r Cyngor yn bwriadu bodloni'r gofynion yma a, lle bo modd, ragori arnyn nhw. Mae rhestr o gyrff Ymgynghori Penodol a Chyffredinol i'w gweld yn Atodiad 2.

3.5. Cydraddoldeb

- 3.5.1. Rydyn ni'n bwriadu trin pawb ag urddas a pharch, a gweithredu mewn modd teg. Bydd y Cyngor yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y broses paratoi'r cynllun ar gael i bawb. Bydd y Cyngor yn ymgysylltu mor eang â phosibl â holl sectorau'r gymuned i adlewyrchu pobl o ystod o gefndiroedd a hunaniaethau. Lle nad yw hi'n bosibl cynnal pob ymgynghoriad wyneb yn wyneb o ganlyniad i gyfyngiadau pandemig Covid-19, bydd y Cyngor yn mynd ati i ddod o hyd i ddulliau ymgynghori eraill i sicrhau bod modd i holl aelodau'r gymuned ymgysylltu'n llawn â'r broses.

3.6. Grwpiau anodd eu cyrraedd

- 3.6.1. Mae grwpiau penodol yn y gymuned yr hoffai'r Cyngor sicrhau eu bod yn rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol o ganlyniad i'w hanghenion penodol a/neu'r ffaith eu bod nhw, yn draddodiadol, heb eu cynrychioli'n ddigonol yn y broses gynllunio.
- 3.6.2. Bydd y Cyngor yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod grwpiau anodd eu cyrraedd yn cael eu cynnwys yn y broses. Mae grwpiau anodd eu cyrraedd yn cynnwys:
- Pobl ifainc;
 - Pobl sydd ag anableddau;
 - Yr henoed;
 - Grwpiau lleiafrifoedd ethnig;
 - Sipsiwn a Theithwyr;
 - Pobl ag anawsterau dysgu;
 - Pobl ddigartref; a
 - Cyn-droseddwy.
- 3.6.3. Yn amlwg, trwy ddiffiniad, mae'n anodd cyrraedd y grwpiau yma ac dydy hi ddim bob amser yn bosibl rhagweld pa grwpiau y bydd hi, mewn gwirionedd, yn anodd

ymgyngori â nhw. Er mwyn sicrhau bod y broses cyfranogiad cymunedol mor hollgynhwysol â phosibl, bydd y Cyngor yn monitro ac adolygu'r cyfnodau ymgynghori statudol trwy gydol y broses. Os bydd hi'n eglur nad yw grwpiau wedi'u cynrychioli'n ddigonol, bydd y Cyngor yn mynd ati i wahodd y grwpiau yma dan sylw i fod yn rhan o'r broses.

- 3.6.4. Mae'r Cyngor yn bwriadu gweithio gyda'i bartneriaid presennol yn y gymuned a datblygu partneriaethau newydd lle bo modd. Bydd cysylltiad agos rhwng paratoi'r cynllun a'r gwaith a gynhelir ar Gynllun Corfforaethol y Cyngor a'r Cynllun Llesiant. Defnyddir, lle bo modd, y partneriaethau sydd wedi dod i'r amlwg o ganlyniad uniongyrchol i'r cynlluniau yma.

3.7. Yr Iaith Gymraeg

- 3.7.1. Cyhoeddwyd Safonau'r Gymraeg gan Gomisiynydd y Gymraeg. Cyfres o ofynion cyfreithiol rwymol ydyn nhw sydd wedi bod mewn grym ers 30 Mawrth 2016. Prif nod Safonau'r Gymraeg yw sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan sicrhau cysondeb gwell o ran gwasanaethau Cymraeg. Mae'r Safonau felly'n caniatáu i unigolion fanteisio ar wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg neu'n ddwyieithog. Cyhoeddodd y Cyngor *Strategaeth Hybu'r Gymraeg* ym mis Medi 2016. Glynir wrth y strategaeth yma, yn ogystal â'r Safonau, ar bob cam o'r broses creu cynlluniau.

3.8. Gwerthusiad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol

- 3.8.1. Er y dylai'r dull Gwerthusiad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol gael ei gynnwys ym mhroses paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol, mae meysydd penodol o waith y mae angen eu paratoi'n benodol. Yn yr un modd, gellir cynnwys ymgynghori ar broses y Gwerthusiad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol â chyfnodau ymgynghori eraill y Cynllun Datblygu Lleol. Serch hynny, mae gofynion penodol ar gyfer cynnwys cyrff ymgynghori penodol.
- 3.8.2. Mae'r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol yn nodi'r cyrff canlynol y mae angen ymgynghori â nhw:
- Awdurdodau â 'chyfrifoldeb amgylcheddol', sef y Cyrff Ymgynghori. Yng Nghymru, y rhain yw Cyfoeth Naturiol Cymru a CADW (Rheoliad Asesiad Amgylcheddol Strategol 14);
 - Y cyhoedd (Rheoliad Asesiad Amgylcheddol Strategol 13 (2(b))); ac
 - Aelodau-wladwriaeth eraill yr UE lle mae'r cynllun yn debygol o gael effaith sylweddol ar y wlad.

4. METHODOLEG A THECHNEGAI YMNGYNGHORI

4.1. Cyflwyniad

- 4.1.1. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn defnyddio nifer o ddulliau a thechnegau ymgynghori er mwyn hwyluso cyfranogiad cymunedol trwy gydol y broses creu cynlluniau. Mae'r holl ddulliau a ddefnyddiwyd wedi'u llunio er mwyn sicrhau cyfranogiad effeithiol, effeithlon a phellgyrhaeddol.
- 4.1.2. Er y bydd nifer o dechnegau gwahanol yn cael eu defnyddio i gynnwys y gymuned gyfan, bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn darparu gwybodaeth wedi'i hysgrifennu'n glir mewn lleoliadau hygyrch a bod cyfle ar gael i drafod problemau gydag aelodau o staff. O ganlyniad i'r pandemig Covid-19, bydd y Cyngor, lle bo modd, ar gael wyneb yn wyneb. Bydd hyn yn ddarostyngedig i reoliadau a osodir gan y Llywodraeth megis cadw pellter cymdeithasol. Lle nad oes modd gwneud hyn, bydd y Cyngor yn mynd ati i ddod o hyd i ddulliau ymgynghori addas eraill megis bod ar gael dros y ffôn ac ar-lein i sicrhau bod modd i'r gymuned ymgysylltu â ni yn effeithiol yn ystod y broses.
- 4.1.3. Yn ystod achlysuron ymgysylltu a gynhaliwyd yn ystod 2021 mae'r Cyngor wedi llwyddo i ddefnyddio meddalwedd fideo-gynadledda fel Teams a Zoom i gynnal cyfarfodydd, fforymau ac achlysuron eraill. Mae'r dulliau yma wedi bod yn llwyddiannus iawn ac yn ffordd effeithlon o ymgysylltu â nifer fawr o bobl. Bydd y Cyngor yn parhau i ddefnyddio'r dulliau yma lle bo'n briodol.
- 4.1.4. Ynghyd â darparu gwybodaeth ar wefan y CDLI bydd y Cyngor hefyd yn defnyddio dulliau ymgynghori ar-lein fel y dudalen Dewch i Siarad i ymgysylltu â chymaint o bobl â phosibl..
- 4.1.5. Mae rhestr isod o rai o'r technegau a ddefnyddir i ymgynghori ar gamau'r cynllun.

4.2. GRWPIAU LLYWIO

- 4.2.1. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cynnal nifer o grwpiau trafod, grwpiau ffocws a gweithdai er mwyn amlhau i'r eithaf cyfleoedd i ymgysylltu a sicrhau dull a arweinir gan y gymuned cyhyd â phosibl. Bydd mewnbwn grwpiau a sefydliadau eraill hefyd yn allweddol i lwyddiant y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig a bydd yr un technegau yn cael eu defnyddio i sicrhau eu mewnbwn.

4.3. Grŵp Llywio Aelodau'r Cynllun Datblygu Lleol

- 4.3.1. Bydd y Cyngor yn sefydlu Grŵp Llywio i Aelodau er mwyn llywio gwaith llunio'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig. Bydd nifer o aelodau priodol yn rhan o'r grŵp.

4.4. Grŵp Llywio Swyddogion y Cynllun Datblygu Lleol

- 4.5. Er mwyn sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig yn gynaliadwy a bod modd ei gyflawni, bydd y Cyngor yn sefydlu Grŵp Llywio Swyddogion y Cynllun

Datblygu Lleol. Bydd Swyddogion y Cyngor â chyfrifoldeb dros feysydd gan gynnwys Cynllunio, Priffyrdd, Peirianeg, Draenio a Rheoli Llifogydd, Bioamrywiaeth, Datblygiad Economaidd, Tai, Addysg ac Iechyd y Cyhoedd yn rhan o'r grŵp. Dydy'r rhestr yma ddim yn gynhwysfawr. Rhagwelir y bydd cyfres o is-grwpiau yn cael eu sefydlu o dan ymbarél y Grŵp Llywio i helpu o ran meysydd allweddol datblygu polisi.

4.6. Fforwm Datblygwyr

- 4.6.1. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol hefyd yn tynnu ar wybodaeth ac arbenigedd y sefydliadau hynny sy'n rhan o'i Fforwm Datblygwyr unigryw. Cafodd y Fforwm Datblygwyr ei sefydlu yn 2012, ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol presennol, i ddarparu datrysiadau arloesol i oresgyn rhwystrau rhag darparu tai. Mae aelodau'r Fforwm yn cynnwys cynrychiolwyr adeiladwyr nifer fawr o dai ac adeiladwyr tai lleol (sy'n gweithredu yn RhCT); Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi; Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (sy'n gweithredu yn RhCT); Sefydliadau Ariannol Cenedlaethol; Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr; a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gweithio gyda'r Fforwm i ddod o hyd i unrhyw rwystrau rhag datblygu sydd wedi dod i'r amlwg o'r blaen a dadansoddi unrhyw broblemau i helpu'r broses creu cynllun, a hynny mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig.

4.7. Fforymau'r Cynllun Datblygu Lleol

- 4.7.1. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â'r gymuned gyfan trwy gydol y broses creu cynlluniau. O ganlyniad i'r rheswm yma, cynigir i sefydlu Fforwm Cynllun Datblygu Lleol i helpu proses y cynllun datblygu a'i llywio. Bydd y Fforwm yn chwarae rôl bwysig wrth sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn adlewyrchu anghenion a dyheadau datblygu Rhondda Cynon Taf.
- 4.7.2. Rhagwelir y bydd gyda'r Fforwm ddwy rôl. Yn gyntaf, bydd yn fecanwaith ar gyfer trafod fydd yn caniatáu sgwrs agored rhwng rhanddeiliaid ar faterion polisi allweddol. Ac yn ail, bydd yn grŵp rheoli ar gyfer y rhanddeiliaid amrywiol sy'n rhan o broses y cynllun datblygu. Bydd y Fforwm yma'n cael ei nodi ar sail ffocws, gan gynnwys rhagor o Aelodau'r Cyngor, grwpiau'r Cyngor, cyrff Ymgynghori Penodol a Chyffredinol

4.8. Gweithgor y Gwerthusiad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol

- 4.8.1. Bydd y Cyngor yn sefydlu gweithgor y Gwerthusiad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol i helpu i lywio proses y Gwerthusiad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol.

4.9. Y Cyfryngau Cymdeithasol a phresenoldeb ar-lein

- 4.9.1. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn darparu cyfle i gyrraedd nifer fawr o bobl mewn ffordd effeithlon. Bydd y Cyngor yn defnyddio ei gyfrifon cyfryngau cymdeithasol presennol a phlatfformau eraill ar-lein i hysbysebu newyddion a chamau'r cynllun. Bydd defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol yn unol â pholisi cyfryngau cymdeithasol y Cyngor. Serch hynny, fydd y Cyngor ddim yn derbyn sylwadau ymgynghori ffurfiol

wedi'u gwneud ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol penodol. Gwneir hyn yn glir ar y platfform cyfryngau cymdeithasol penodol hwnnw pan fydd y cyfyngiad yn berthnasol.

4.10. Gwefan

4.10.1. Gwefan y Cyngor fydd un o'r prif ffynonellau gwybodaeth a bydd yn cael ei defnyddio at ddibenion ymgynghori trwy gydol proses y cynllun. Bydd y wefan yn cael ei diweddarau â gwybodaeth am bob cam o'r broses creu cynlluniau. Bydd ganddi'r holl ddogfennau wedi'u paratoi a manylion cyswllt y Garfan Polisi Cynllunio. Bydd gan y wefan hefyd gamau ymgynghori'r cynllun, gwybodaeth ar sut mae modd cyflwyno sylwadau a'r ffurflenni priodol sydd eu hangen i wneud hynny. Bydd y wefan yn cael ei diweddarau trwy gydol proses y cynllun.

4.10.2. Yn ystod achlysuron ymgysylltu a gynhaliwyd yn ystod 2021 mae'r Cyngor wedi llwyddo i ddefnyddio meddalwedd fideo-gynadledda fel Teams a Zoom i gynnal cyfarfodydd, fforymau ac achlysuron eraill. Mae'r dulliau yma wedi bod yn llwyddiannus iawn ac yn ffordd effeithlon o ymgysylltu â nifer fawr o bobl. Bydd y Cyngor yn parhau i ddefnyddio'r dulliau yma lle bo'n briodol.

4.10.3. Yn ogystal â darparu gwybodaeth ar wefan y CDLI bydd y Cyngor hefyd yn defnyddio dulliau ymgynghori ar-lein fel y dudalen Dewch i Siarad i ymgysylltu â chymaint o bobl â phosibl.

4.11. Sesiynau Galw Heibio yn ystod cyfnodau ymgynghori

4.11.1. Bydd Carfan y Cynllun Datblygu Lleol yn ymdrechu i fod ar gael gymaint â phosibl yn ystod proses y Cynllun Datblygu Lleol. Er mwyn helpu hyn, bydd sesiynau galw heibio amrywiol yn cael eu cynnal yn ystod cyfnodau ymgynghori'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd y sesiynau yma yn unol â chanllawiau diweddaraf y Llywodraeth ar Covid-19. Caiff ei sicrhau bod y sesiynau mewn lleoliadau hygyrch ac ar adegau cyfleus.

4.12. Gwybodaeth Ysgrifenedig

4.12.1. Bydd y Cyngor yn llunio gwybodaeth ysgrifenedig glir trwy gydol y broses. Bydd y Cyngor hefyd yn cyfieithu'r dogfennau yma yn unol â Safonau'r Gymraeg. Dylid cyflwyno cais ysgrifenedig i'r Cyngor am ddiwygiau gwahanol o'r dogfennau yma. Bydd y Cyngor yn ymdrechu i wneud yr wybodaeth ysgrifenedig mor hygyrch â phosibl.

4.12.2. Mi fydd y Cyngor yn paratoi fersiwn Hawdd i Ddarllen o'r brif ddogfennau cysylltu ar bob cam ffurfiol yr CDLID.

4.13. Argaeledd Dogfennau (Lleoliadau adnau)

4.13.1. Yn ystod camau amrywiol gwaith paratoi'r cynllun, bydd dogfennau electronig sy'n gysylltiedig â phroses ddiwygio lawn y Cynllun Datblygu Lleol ar gael ar wefan y Cyngor. Bydd ffurflenni cyflwyno sylwadau electronig hefyd ar gael ar y wefan, a hynny ar gamau ymgynghori priodol. Yn ychwanegol at hyn, bydd copïau o'r

dogfennau yma ar gael ym mhrif swyddfeydd y Cyngor a llyfrgelloedd; adeg ysgrifennu, dyma'r lleoliadau:

- Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU
- Canolfan a Llyfrgell IBobUn Pontypridd, 1 Llys Cadwyn, Stryd Taf, Pontypridd, CF37 4TH
- Canolfan a Llyfrgell IBobUn Aberdâr, Y Stryd Las, Aberdâr, CF44 7AG
- Canolfan a Llyfrgell IBobUn Porth, Plaza'r Porth, Heol Pontypridd, Y Porth, CF39 9PG
- Canolfan a Llyfrgell IBobUn Aberpennar, Stryd Rhydychen, Aberpennar, CF45 3HD
- Canolfan a Llyfrgell IBobUn Treorci, Heol yr Orsaf, Treorci CF42 6NN
- Llyfrgell Abercynon, Heol Ynysmeurig, Abercynon, CF45 4SU
- Llyfrgell Pentre'r Eglwys, Campws Cymuned Garth Olwg, oddi ar Heol Sant Illtyd, Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1RQ
- Llyfrgell Glynrhedynog, Yr Hwb, Heol y Gogledd, Glynrhedynog, CF43 4PS
- Llyfrgell Hirwaun, Y Stryd Fawr, Hirwaun, CF44 9SW
- Llyfrgell Gymuned Llantrisant, Canolfan Hamdden Llantrisant, Parc Porth y De, Llantrisant, CF72 8DJ
- Llyfrgell Pont-y-clun, Heol y Felin, Pont-y-clun, CF72 9BE
- Llyfrgell Rhydfelen, Cwrt y Llyfrgell, Heol y Poplys, Rhydfelen, CF37 5LR
- Llyfrgell Tonypany. Stryd De Winton, Tonypany, CF40 2QZ
- Llyfrgell Deithiol

4.13.2. Bydd y Cyngor yn diweddaru'r lleoliadau yma ar ei wefan. Sylwch efallai y bydd angen trefnu apwyntiad i weld dogfennau oherwydd cyfyngiadau Covid.

4.13.3. **Blaen Swyddfa**

4.13.4. Mae prif swyddfa'r Garfan yn Nhŷ Sardis, Pontypridd. Ar ddechrau'r pandemig dechreuodd y garfan CDLI weithio gartref. Mae gweithio gartref yn debygol o barhau ac felly bydd angen trefnu apwyntiadau i weld dogfennau neu i gwrdd â charfan y CDLI wyneb yn wyneb. I drefnu apwyntiad ffoniwch neu anfon e-bost at y garfan.

4.14. **Gohebiaeth Uniongyrchol**

4.14.1. Caiff unrhyw un sydd â diddordeb yn Rhondda Cynon Taf a'r Cynllun Datblygu Lleol fod yn rhan o broses y cynllun a dylai fod yn rhan ohoni. Bydd y Cyngor yn cadw cronfa ddata ymgynghori fydd â manylion cyswllt unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n dymuno cael y diweddaraaf am broses y cynllun. Yn ystod camau amrywiol y broses, bydd y Cyngor yn cysylltu'n uniongyrchol ag unigolion a sefydliadau trwy e-bost neu lythyr. Bydd y Cyngor yn ymdrechu i leihau'r papur a ddefnyddir yn ystod proses y Cynllun Datblygu Lleol. Felly, bydd yn gofyn i gyfranogwyr am gyfeiriad e-bost lle bo modd. Deallir nad oes gan bawb gyfeiriad e-bost felly byddwn ni'n ysgrifennu at yr unigolion yma.

4.15. **Argaeledd Carfan y Cynllun Datblygu Lleol**

- 4.15.1. Bydd y garfan yn ymdrechu i fod ar gael gymaint â phosibl yn ystod proses y Cynllun Datblygu Lleol. Mae gan y garfan gyfeiriad e-bost a rhif ffôn uniongyrchol. Mae modd cysylltu â'r garfan yn ystod oriau'r swyddfa, sef 9.00am-5.00pm dydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc).
- 4.15.2. Bydd y Cyngor hefyd yn ymdrechu i gwrdd â grwpiau cymunedol a/neu drigolion lle bo'n addas ac yn bosibl.
- 4.15.3. Mae manylion cyswllt y garfan i'w gweld yn Atodiad 1.
- 4.15.4. Nodir y prif dechnegau ymgynghori ac ymgysylltu uchod y bydd y Cyngor yn eu defnyddio yn ystod y broses creu cynlluniau. Serch hynny, mae'n anochel y bydd cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg yn ystod proses y Cynllun Datblygu Lleol i ymgysylltu'n bellach â'r cyhoedd, yn enwedig wrth i gyfyngiadau Covid-19 gael eu llacio'n raddol. Bydd y Cyngor yn archwilio unrhyw gyfle i wneud hynny.

4.16. Cydweithio â'r Cyngor/Disgwyliadau Ymgynghorai

- 4.16.1. Er mwyn cyflwyno sylwadau ar y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig, mae'n hanfodol eu bod nhw wedi'u cyflwyno yn ystod yr amserlenni penodol. Bydd hyn yn rhoi digon o amser i'r Awdurdod Cynllunio Lleol eu hystyried. Mae amserlen y camau priodol i'w gweld yn y Cytundeb Cyflawni sy'n darparu canllaw o ran pryd bydd y Cyngor yn dechrau ymgysylltu. Bydd hyn yn caniatáu i holl sylwadau gael eu hystyried a bydd hyn, yn ei dro, yn llywio'r broses creu cynlluniau lle bo'n addas.

4.17. Ffurflenni sylwadau

- 4.17.1. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod ffurflen sylwadau safonol ar gael yn ystod y cyfnodau ymgynghori. Bydd angen cwblhau adrannau allweddol o'r ffurflen i gyflwyno sylwadau dilys.
- 4.17.2. Os bydd unrhyw fanylion personol yn newid ar ôl cysylltu'n wreiddiol, dylech roi gwybod i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i sicrhau eich bod yn parhau i gael y diweddaraf am gynnydd y Cynllun. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai manylion perchnogaeth tir Safleoedd Posibl yn newid yn ystod y broses. Felly, mae'n hanfodol eich bod yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Cynllunio Lleol am unrhyw newidiadau ar unwaith.

4.18. Magu Cydsyniad

- 4.18.1. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn sicrhau bod cydsyniad yn cael ei feithrin trwy'r technegau ymgynghori ac ymgysylltu a nodir yn y Cynllun Cyfranogiad Cymunedol. Er mwyn meithrin cydsyniad, mae'n hanfodol bod rhanddeiliaid a phob parti arall â diddordeb yn cael y diweddaraf ac yr ymgysylltir â nhw trwy gydol y broses ddiwygio lawn. Bydd hyn o bwys mawr ar ddechrau'r broses. Cydnabyddir na fydd modd cael cydsyniad bob amser a barn wahanol partion amrywiol fydd drechaf. Felly, bydd trywydd archwilio clir o benderfyniadau yn cael ei gadw gan sicrhau tryloywder o ran y broses creu cynlluniau.

4.19. Delio â Sylwadau a Data Arall

- 4.19.1. Delir â sylwadau sy'n dod i law o fewn yr amserlenni penodol trwy'r ffordd ganlynol:
- Cofnodi'r sylwadau a dyrannu rhif;
 - Anfon cadarnhad derbyn at y sawl sydd wedi cyflwyno sylwadau;
 - Cofnodi'r sylwadau a manylion y sawl sydd wedi'u cyflwyno;
 - Ystyried holl sylwadau dilys a threfnu ymatebion; a
 - Cofnodi a chyhoeddi ymatebion yr Awdurdod Lleol i sylwadau yn unol â'r Rheoliadau.

4.20. Diogelu Data

- 4.20.1. Delir â holl wybodaeth a data personol yn unol â pholisïau diogelu data a phreifatrwydd yr Adrannau Ffyniant a Datblygu cytûn.
- 4.20.2. I ddysgu mwy am sut yr mae eich wybodaeth personol yn cael ei ddefnyddio, croeso i ymweld a tudalennau wefan ar ddiogeli data y Cyngor yma; www.rctcbc.gov.uk/dataprotection.

4.21. Sylwadau Hwyr

- 4.21.1. Er mwyn i sylwadau gael eu hystyried, bydd angen ymatebion i'r ymgynghoriad ar gyfer y cam penodol o fewn cyfnod penodol. Fydd sylwadau hwyr ddim yn cael eu cofnodi'n rhai ddilys os ydyn nhw'n methu â chydymffurfio â'r amserlenni cyhoeddedig.
- 4.21.2. Mae'n bosibl y bydd amgylchiadau esgusodol lle mae sylwadau wedi'u cyflwyno'n hwyr. Disgresiwn yr Awdurdod Cynllunio Lleol fydd penderfynu p'un a fydd y sylwadau yn cael eu derbyn. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn wynebu amserlen heriol o ran llunio cynllun diwygiedig; felly gall sylwadau hwyr achosi oedi pellach a diangen. Fyddai hyn ddim yn dderbyniol.

4.22. Monitro ac Adolygu'r Cytundeb Cyflawni

- 4.22.1. Cynigir monitro ac adolygu effeithiolrwydd y Cytundeb Cyflawni ar bob cam o broses paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Trwy wneud hyn, bydd modd penderfynu a yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn bodloni ei amcanion yn nhermau ymgysylltu â'r cyhoedd i fod yn rhan o'r broses a ph'un a yw'r amserlenni a nodwyd yn cael eu bodloni. Bydd hyn o bwys penodol yn ystod yr adeg yma o ganlyniad i gyfyngiadau Covid-19 a natur y sefyllfa sy'n datblygu trwy'r amser. Lle mae cyfle i wella'r dulliau ymgysylltu byddwn ni'n ceisio gwneud hynny. Serch hynny, bydd angen i unrhyw newidiadau sylweddol i Gynllun Cynnwys y Gymuned a newidiadau i'r amserlen gael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru.
- 4.22.2. Bydd amserlen ddiweddaraf yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru, a hynny ar ôl y cam adnau. Bydd hyn yn rhoi cyfle i bennu amserlen well ar gyfer camau 'mynegol' yr amserlen, a hynny unwaith i fanylion pellach fod yn hysbys.

4.23. Monitro ac Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol

- 4.23.1. Bydd y Cyngor yn llunio Adroddiad Monitro Blynnyddol bob blwyddyn ar ôl y dyddiad mabwysiadu. Bydd yr adroddiad yn asesu pa mor effeithiol mae polisïau a chynigion y cynllun yn cyflawni a thynnu sylw at unrhyw angen am newidiadau. Bydd yr adroddiad monitro hefyd yn cynnwys cyfeiriadau at Ganllawiau Cynllunio Cenedlaethol newydd neu wedi'u diweddarau ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall. Ar ôl iddo gael ei lunio, bydd yr adroddiad monitro ar gael i'r cyhoedd ei weld ar wefan y Cyngor.
- 4.23.2. Ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, y bwriad yw y bydd y cynllun yn cael ei adolygu bob pedair blynedd. Bydd adolygiad o wybodaeth a thueddiadau sylfaenol y Gwerthusiad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol hefyd yn cael ei gynnal a'i gynnwys yn y diwygiad.

4.24. Canllawiau Cynllunio Atodol

- 4.24.1. Bydd gan y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig bolisïau a chynigion digonol i ddarparu sail ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio. Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu defnyddio'n ddethol er mwyn pennu polisïau thematig mwy manwl neu ganllawiau sy'n benodol i safle o ran y ffordd y bydd polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu rhoi ar waith. Dydy Canllawiau Cynllunio Atodol ddim yn rhan o'r cynllun datblygu ond byddan nhw'n deillio o bolisïau sydd yn y cynllun. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb yn y polisïau/cynigion y mae'r cynllun yn atodiad iddyn nhw.
- 4.24.2. Ar ôl mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol presennol RhCT, cafodd nifer o Ganllawiau Cynllunio Atodol eu llunio i ategu polisi y Cynllun Datblygu Lleol presennol. Roedd y rhain yn cynnwys:
- Dylunio a Chreu Lleoedd (Mawrth 2011)
 - Dylunio a Chreu Lleoedd: Mynediad, Cylchrediad a Pharcio (Mawrth 2011)
 - Yr Amgylchedd Hanesyddol (Mawrth 2011)
 - Dylunio yng Nghanol Trefi (Mawrth 2011)
 - Canllaw Dylunio ar gyfer Datblygiadau Deiliaid Tai (Mawrth 2011)
 - Tai Fforddiadwy (Mawrth 2011)
 - Cadwraeth Natur (Mawrth 2011)
 - Rhwymedigaethau Cynllunio (Mawrth 2011)
 - Rhwymedigaethau Cynllunio (Diwygiedig) (Rhagfyr 2014)
 - Dylunio Blaen Siop (Hydref 2014)
 - Datblygu Fflatiau (Mehefin 2015)
 - Sgiliau Cyflogaeth (Mehefin 2015)
 - Tai Amlfeddiannaeth ('HMOs') (Mai 2018)
- 4.24.3. Bydd adolygiad o holl ddogfennau'r Canllawiau Cynllunio Atodol presennol, gan gynnwys rhai wedi'u paratoi'n fwy diweddar, yn rhan o weithdrefn ddiwygio lawn y Cynllun Datblygu Lleol. Mae newidiadau'n debygol yn y rhan fwyaf o achosion.
- 4.24.4. Bydd y Cyngor yn defnyddio Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer canllawiau manwl a rhifiadol lle ystyrir y byddan nhw, o bosibl, yn newid yn ystod cyfnod y cynllun. Bydd hyn yn sicrhau na fydd y Cynllun Datblygu Lleol ar ôl yr oes yn y tymor byr a'i fod yn helpu gydag hyblygrwydd y cynllun. Lle bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol

yn helpu i ddeall y Cynllun Datblygu Lleol, bydd yn cael ei baratoi ac ymgynghorir arno ar yr un pryd. Serch hynny, fydd hi ddim yn bosibl paratoi'r holl Ganllawiau Cynllunio Atodol ar yr un pryd. Yn yr amgylchiadau yma, bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol yn destun proses ymgynghori a mabwysiadu ffurfiol ar wahân. Bydd adroddiad ymgynghori â'r cyhoedd yn cael ei baratoi mewn perthynas â phob dogfen y Canllawiau Cynllunio Atodol.

- 4.24.5. Does dim modd mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol yn ffurfiol hyd nes bod adroddiad terfynol yr Arolygydd wedi'i dderbyn a'i bod hi'n glir na fydd unrhyw newid o ran dull y polisi.

5. AMSERLEN A DULLIAU YMGYSYLLTU ARFAETHEDIG

Mae'r wybodaeth isod yn rhoi dadansoddiad manwl o'r broses o lunio'r Cynllun, hyd at a chan gynnwys gosod y CDLI ger bron yr Arolygiaeth Gynllunio i'w archwilio. Ei nod yw egluro diben y cam, pwy fydd yn cymryd rhan a'r hyn y mae'r Cyngor yn ei ddisgwyl gan y rheiny y mae'n ymgynghori â nhw ("yr ymgynghoreion"). Dydy'r Cyngor ddim yn rheoli camau dilynol y broses yn uniongyrchol ac felly mae'n bosibl y byddan nhw'n newid.

TABL 2

Cam yn y Broses o Baratoi'r CDLI: Cyfranogiad Cyn-adneuo (Rheoliad 14) gan gynnwys paratoi'r Strategaeth a Ffefrir	Amserlen	Pwy fydd yn cymryd rhan	Dulliau ymgysylltu	Dull adrodd a deilliannau tebygol	Adnoddau
Paratoi papurau cefndir manwl o bynciau'r CDLI Adolygu sail y dystiolaeth Paratoi Adroddiad Cwmpasu Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig (ISA). Bydd yr adroddiad yn cwmpasu: Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) yn ogystal â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, asesiad o'r effaith ar y Gymraeg, asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, asesiad o'r effaith ar iechyd a Deddf yr Amgylchedd Paratoi Materion, Amcanion, Gweledigaeth a Nodau	Ebrill 2022-Mai 2023	Grwpiau Llywio RhCT Cyrff Ymgynghori Penodol Cyrff Ymgynghori Cyffredinol Y Cyhoedd	Gweithdai Gohebiaeth uniongyrchol drwy e-bost/llythyr Presenoldeb ar-lein, e.e. drwy'r rhyngrwyd, platfformau'r cyfryngau cymdeithasol a cynadleda fideo.	Paratoi dogfennau ar sail tystiolaeth ffurfiol ac adroddiadau ar ymgysylltu. Cynigion Cyn-adneuo a phapurau wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor a'u cymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus	Carfan Polisi Cynllunio'r CDLI Grŵp Llywio Swyddogion Grŵp Llywio Aelodau Ymgynghorwyr TGCh Y Gwasanaeth Cyfieithu

Paratoi opsiynau strategaeth ac asesu dewisiadau amgen (gan ymgorffori gofynion yr ISA) Paratoi'r Strategaeth Ofodol a'r ddogfen Opsiynau a Ffefrir Paratoi'r Adroddiad ISA cychwynnol Paratoi Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd					
Galw am Safleoedd Ymgeisiol	Mehefin 2022-Medi 2022	Grwpiau Llywio RhCT Cyrff Ymgynghori Penodol Cyrff Ymgynghori Cyffredinol Ymgylgoreion eraill Tirfeddianwyr Cyhoeddus	Cyhoeddi'r wybodaeth ar wefan y Cyngor gyda datganiad i'r wasg Cyfrifon Facebook a Twitter corfforaethol a phlatfformau'r cyfryngau cymdeithasol priodol eraill Gohebiaeth uniongyrchol	Paratoi Cofrestr o Safleoedd Ymgeisiol	Carfan Polisi Cynllunio'r CDLI TGCh Y Garfan Marchnata a'r Wasg Y Gwasanaeth Cyfieithu

		Unrhyw un arall sydd â diddordeb sy'n dymuno cyflwyno tir i'r broses	drwy e-bost a llythyr		
ISA/SEA					
Ymgynghoriad statudol 5 wythnos o hyd ar Adroddiad Cwmpasu'r ISA	Gorffennaf/Awst 2022	Cyrff Ymgynghori Statudol Gweithgor yr ISA	Gohebiaeth uniongyrchol drwy e-bost/llythyr Gweithdy/cyfarfod	Ystyried sylwadau ar Adroddiad Cwmpasu Drafft yr SA/SEA Paratoi dogfennau sail tystiolaeth ffurfiol	Carfan Polisi Cynllunio'r CDLI Cyrff Ymgynghori (Gweithgor yr SA/SEA) Ymgynghorwyr yr SA/SEA

Cam yn y Broses o Baratoi'r CDLI; Ymgynghoriad Cyhoeddus Cyn-adneuo (Strategaeth a Ffefrir) (Rheoliad 15 ac 16)	Amserlen	Pwy fydd yn cymryd rhan	Dulliau ymgysylltu	Dull adrodd a deilliannau tebygol	Adnoddau
Ymgynghoriad ar y Cynigion Cyn-adneuo a'r dogfennau ategol gan gynnwys y Strategaeth a Ffefrir a'r Gofrestr o Safleoedd Ymgeisiol	Mehefin/Gorffennaf 2023 (am 6 wythnos)	Grwpiau Llywio CDLI RhCT Cyrff Ymgynghori Penodol Cyrff Ymgynghori Cyffredinol Cyrff Ymgynghori Eraill Cyrff Ymgynghori'r ISA	Gohebiaeth uniongyrchol drwy e-bost a llythyr Cyhoeddi dogfennau ar wefan y Cyngor. Presenoldeb ar-lein, e.e. drwy'r rhyngwyd, platfformau'r cyfryngau cymdeithasol a cynadledda fideo. Rhoi copiâu o'r holl ddogfennau perthnasol mewn lleoliadau adneuo Sesiynau galw heibio/arddangosfeydd/cyfarfodyd d os yw hynny'n briodol Anfon dogfennau at Gyrff Ymgynghori Penodol a Chyffredinol	Paratoi dogfennau ar sail tystiolaeth ffurfiol Dadansoddi a chofnodi sylwadau sydd wedi dod i law Manylion yr ymatebion sydd wedi dod i law i'w cynnwys mewn adroddiad ar yr ymgynghoriad (adroddiad cychwynnol ar yr ymgynghoriad) Cadarnhau/Diwygio'r Strategaeth a Ffefrir. Cymeradwyo	Carfan Polisi Cynllunio'r CDLI Aelodau Etholedig TGCh Y Gwasanaeth Cyfieithu Y Garfan Achlysuron Costau argraffu Costau marchnata

		Unrhyw un arall â diddordeb/y cyhoedd	Rhoi copïau caled o'r dogfennau ym mhrif swyddfeydd a llyfrgelloedd y Cyngor (lleoliadau adneuo) Negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol	Cynigion Cyn-adneuo ar gyfer Ymgynghoriad ar Adnau.	
Ymgynghoriad 6 wythnos o hyd ar Adroddiad cychwynnol yr ISA	Mehefin/Gorffennaf 2023	Fel yr uchod	Fel yr uchod	Dadansoddi a chofnodi sylwadau sydd wedi dod i law Manylion yr ymatebion sydd wedi dod i law i'w cynnwys mewn adroddiad ar yr ymgynghoriad Diwygio/diweddaru'r SA yn ôl yr angen	Gweithgor yr ISA Ymgynghorwyr Ac fel yr uchod

Cam yn y Broses o Baratoi'r CDLI: Paratoi'r CDLI Adneuo Diwygiedig (Rheoliad 16, 17, 18 ac 19)	Amserlen	Pwy fydd yn cymryd rhan	Dulliau ymgysylltu	Dull adrodd a deilliannau tebygol	Adnoddau
Paratoi'r CDLI Adneuo Diwygiedig	Awst 2023– Mehefin 2024	Carfan Polisi Cynllunio'r CDLI Grŵp Llywio Swyddogion Grŵp Llywio'r Aelodau – Y Cynllun Datblygu Lleol Fforwm Datblygwyr Fforwm y CDLI	Cyfarfodydd Gweithdai Fideo Gohebiaith Digidol	Cyfraniadau priodol i'r CDLI Adneuo Diwygiedig.	Carfan Polisi Cynllunio'r CDLI Grŵp Llywio Swyddogion Grŵp Llywio'r Aelodau – Y Cynllun Datblygu Lleol Fforwm Datblygwyr Fforwm y CDLI
Paratoi adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y CDLI Adneuo Diwygiedig.	Awst 2023– Mehefin 2024	Carfan Polisi Cynllunio'r CDLI/ Ymgynghorwyr yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig Grŵp Llywio Swyddogion	Fel uchod	Cyfraniadau priodol i'r CDLI Adneuo Diwygiedig.	Carfan Polisi Cynllunio'r CDLI/ Ymgynghorwyr yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig Grŵp Llywio Swyddogion Grŵp Llywio'r Aelodau – Y Cynllun Datblygu Lleol

Cam yn y Broses o Baratoi'r CDLI: Paratoi'r CDLI Adneuo Diwygiedig (Rheoliad 16, 17, 18 ac 19)	Amserlen	Pwy fydd yn cymryd rhan	Dulliau ymgysylltu	Dull adrodd a deilliannau tebygol	Adnoddau
		Grŵp Llywio'r Aelodau – Y Cynllun Datblygu Lleol Fforwm Datblygwyr Fforwm y CDLI			Fforwm Datblygwyr Fforwm y CDLI

Cam yn y Broses o Baratoi'r CDLI: Adneuo Cynigion yn Statudol (Rheoliadau 17, 18 ac 19)	Amserlen	Pwy fydd yn cymryd rhan	Dulliau ymgysylltu	Dull adrodd a deilliannau tebygol	Adnoddau tebygol
Ymgynghoriad statudol ar y CDLI ar Adnau Drafft a	Gorffennaf/Awst 2024 (am 6 wythnos)	Grwpiau Llywio RhCT	Gohebiaeth uniongyrchol drwy e-bost a llythyr	Manylion yr ymatebion sydd wedi dod	Carfan Polisi Cynllunio'r CDLI

Cam yn y Broses o Baratoi'r CDLI: Adneuo Cynigion yn Statudol (Rheoliadau 17, 18 ac 19)	Amserlen	Pwy fydd yn cymryd rhan	Dulliau ymgysylltu	Dull adrodd a deilliannau tebygol	Adnoddau tebygol
dogfennau ategol		Cyrff Ymgynghori Penodol, Cyrff Ymgynghori Cyffredinol, Cyrff Ymgynghori Eraill Cyrff Ymgynghori'r ISA Unrhyw un arall â diddordeb, gan gynnwys y cyhoedd	Dogfennau ar gael mewn lleoliadau adneuo Cyhoeddi'r holl ddogfennau perthnasol ar wefan y Cyngor gyda datganiad i'r wasg. Presenoldeb ar-lein, e.e. drwy'r rhyngrwyd, platfformau'r cyfryngau cymdeithasol a cyfarfod fideos Anfon dogfennau at gyrff ymgynghori Penodol a Chyffredinol Cyfrifon Facebook a Twitter corfforaethol Sesiynau galw heibio/arddangosfeydd/cyfarfodydd fel yn briodol. Hysbysiadau ar safleoedd ar gyfer dyraniadau safle-benodol	i law i'w cynnwys mewn Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Rhoi copïau o'r sylwadau mewn lleoliadau adneuo ac ar y wefan	Ymgynghoreion mewnol TGCh Y Garfan Marchnata ac Achlysuron Costau argraffu
Ymgynghoriad Statudol ar	Gorffennaf/Awst 2024	Fel yr uchod	Fel yr uchod	Fel yr uchod	Fel yr uchod

Cam yn y Broses o Baratoi'r CDLI: Adneuo Cynigion yn Statudol (Rheoliadau 17, 18 ac 19)	Amserlen	Pwy fydd yn cymryd rhan	Dulliau ymgysylltu	Dull adrodd a deilliannau tebygol	Adnoddau tebygol
Adroddiad ISA'r cam Adneuo a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARC)					

Cam yn y Broses o Baratoi'r CDLI: Cyflwyno'r CDLI i'w Archwilio (Rheoliadau 18, 19 a 22)	Amserlen	Pwy fydd yn cymryd rhan	Dulliau ymgysylltu	Dull adrodd a deilliannau tebygol	Adnoddau
Ystyried y sylwadau sydd wedi dod i law a diweddarau'r Adroddiad Ymgynghori Diweddarau'r ISA os oes angen Rhoi gwybod i bob parti perthnasol fod y dogfennau wedi'u gosod ger bron Llywodraeth Cymru Gosod y CDLI ar Adnau Drafft, yr ISA a'r ADC a dogfennau	Amcangyfrif o ddyddiad: Tachwedd 2024 (Dyddiadau gwirioneddol i'w cytuno gyda PCAC)	Llywodraeth Cymru Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru Grwpiau Llywio RhCT Cyrff Ymgynghori Penodol Cyrff Ymgynghori Cyffredinol Cyrff Ymgynghori Eraill Cyrff Ymgynghori'r SA Yr unigolion hynny sydd wedi gofyn am gael gwybod pan gaiff y CDLI ei osod Unrhyw un arall sydd â diddordeb	Gohebiaeth uniongyrchol drwy e-bost a llythyr Gwybodaeth/datganiad ar wefan y Cyngor sy'n nodi bod y CDLI wedi'i osod ynghyd â dogfennau perthnasol Copiâu caled o ddogfennau perthnasol ar gael mewn lleoliadau adneuo	Adroddiad Ymgynghori wedi'i ddiweddarau Diweddarau'r ISA os oes angen Rhoi gwybod i'r Cyngor am yr Adroddiad Ymgynghori ar y Cynllun ar Adnau a cheisio barn ar unrhyw newidiadau penodol Gosod y CDLI ar Adnau a dogfennau ategol ger bron	Carfan Polisi Cynllunio'r CDLI Costau argraffu

Cam yn y Broses o Baratoi'r CDLI: Cyflwyno'r CDLI i'w Archwilio (Rheoliadau 18, 19 a 22)	Amserlen	Pwy fydd yn cymryd rhan	Dulliau ymgysylltu	Dull adrodd a deilliannau tebygol	Adnoddau
perthnasol eraill ger bron Llywodraeth Cymru				Llywodraeth Cymru	

Cam yn y Broses o Baratoi'r CDLI Archwiliad Annibynnol (Rheoliad 23)	Amserlen	Pwy fydd yn cymryd rhan	Dulliau ymgysylltu	Dull adrodd a deilliannau tebygol	Adnoddau
Rhoi gwybod am Archwiliad Annibynnol yn unol â Rheoliad 23	Amcangyfrif o ddyddiad: Chwefror 2025 (o leiaf 6 wythnos cyn dechrau'r Archwiliad) (Angen cytuno ar y dyddiad gwirioneddol gyda PCAC)	Grwpiau Llywio RhCT Cyrff Ymgynghori Penodol Cyrff Ymgynghori Cyffredinol Cyrff Ymgynghori Eraill Yr unigolion hynny sydd wedi cyflwyno sylwadau dilys Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru Swyddog Rhaglen Unrhyw un arall sydd â diddordeb	Rhoi gwybod yn ffurfiol drwy ohebiaeth uniongyrchol a darparu gwybodaeth ar wefan y Cyngor Rhoi gwybod am y rheiny sydd wedi cyflwyno sylwadau dilys	Dd/B	Carfan Polisi Cynllunio'r CDLI Ymgynghorwyr
Archwiliad Annibynnol	Amcangyfrif o ddyddiad: Ebrill/Mai 2025	Yr holl unigolion a'r sefydliadau hynny sydd â diddordeb sydd wedi	Trafodaethau Bord Gron	Adroddiad yr Arolygydd	Swyddog Rhaglen Costau archwilio

Cam yn y Broses o Baratoi'r CDLI Archwiliad Annibynnol (Rheoliad 23)	Amserlen	Pwy fydd yn cymryd rhan	Dulliau ymgysylltu	Dull adrodd a deilliannau tebygol	Adnoddau
	(Angen cytuno ar y dyddiad gwirioneddol gyda'r PCAC)	cyflwyno sylwadau ar gam Adneuo'r Cynllun Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru	Cyflwyniad ysgrifenedig a llafar ffurfiol		Costau gweinyddu

Cam yn y Broses o Baratoi'r CDLI; Adroddiad yr Arolygydd yn dod i law (Rheoliad 24)	Amserlen	Pwy fydd yn cymryd rhan	Dulliau ymgysylltu	Dull adrodd a deilliannau tebygol	Adnoddau
Adroddiad yr Arolygydd yn dod i law	Amcangyfrif o ddyddiad: Medi/Hydref 2025 (Angen cytuno ar y dyddiad gwirioneddol gyda PCAC)	Yr unigolion hynny sydd wedi gofyn am gael gwybod pan ddaw'r Adroddiad i law Grwpiau Llywio RhCT	Adroddiad yr Arolygydd ar gael ar wefan y Cyngor Copïau o'r Adroddiad ar gael mewn lleoliadau adneuo Datganiad i'r wasg Cyfrifon Facebook a Twitter corfforaethol	Rhoi gwybod i'r Cyngor bod Adroddiad yr Arolygydd wedi dod i law	Costau argraffu

Cam yn y Broses o Baratoi'r CDLI: Mabwysiadu (Rheoliad 25)	Amserlen	Pwy fydd yn cymryd rhan	Dulliau ymgysylltu	Dull adrodd a deilliannau tebygol	Adnoddau
Mabwysiadu'r CDLI yn ffurfiol yn Gynllun Datblygu ar gyfer y Fwrdeistref Sirol cyn pen 8 wythnos i Adroddiad yr Arolygydd yn dod i law	Hydref 2025	Yr unigolion hynny sydd wedi gofyn am gael gwybod Cabinet Y Cyngor	Cyhoeddi'r CDLI, y Datganiad Mabwysiadu a'r Adroddiad ISA ar wefan y Cyngor Dogfennau ar gael mewn lleoliadau adneuo Anfon y Datganiad Mabwysiadu at y rheiny sydd wedi gofyn am gael gwybod Datganiad i'r wasg Cyfrifon Facebook a Twitter corfforaethol	Cyngor Llawn cyn ei fabwysiadu'n derfynol	Costau argraffu Marchnata

Cam yn y Broses o Baratoi'r CDLI: Mabwysiadu (Rheoliad 25)	Amserlen	Pwy fydd yn cymryd rhan	Dulliau ymgysylltu	Dull adrodd a deilliannau tebygol	Adnoddau
Cyhoeddi Adroddiad yr ISA yn ffurfiol	Hydref 2025		Fel yr uchod	Fel yr uchod	Costau argraffu
Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB)					
Paratoi'r AMB	31 Hydref 2027 a phob blwyddyn wedi hynny	Unrhyw un â diddordeb	Cyhoeddi ar wefan y Cyngor Anfon at Lywodraeth Cymru	Cabinet/Aelod Dirprwyedig o'r Cabinet	Staff Y Gwasanaeth Cyfieithu TGCh

Atodiad 1

MANYLION CYSWLLT

Mae modd cysylltu â'r Garfan Polisi Cynllunio drwy unrhyw rai o'r dulliau canlynol:

E-bost: CDLI@rctcbc.gov.uk

Post:

Y Garfan Polisi Cynllunio

Llawr 2

Tŷ Sardis

Heol Sardis

Pontypridd

Rhondda Cynon Taf

CF37 1DU

Ffôn: 01443 281129

Atodiad 2 – Rhestr o Gyrff Ymgynghori

Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 yn diffinio Cyrff Ymgynghori Cyffredinol a Chyrff Ymgynghori Penodol fel a ganlyn:

Cyrff Ymgynghori Cyffredinol yw:	Cyrff Ymgynghori Penodol yw:
- cyrff gwirfoddol, y mae rhai neu'r cyfan o'u gweithgareddau o fudd i unrhyw ran o ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI); - cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau hiliol, ethnig neu genedlaethol yn ardal yr ACLI; - cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau crefyddol yn ardal yr ACLI; - cyrff sy'n cynrychioli buddiannau pobl anabl yn ardal yr ACLI; - cyrff sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n gweithredu busnes yn ardal yr ACLI; a - cyrff sy'n cynrychioli buddiannau diwylliant Cymru yn ardal yr ACLI.	- Cyfoeth Naturiol Cymru - Network Rail Infrastructure Limited - i'r graddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn arfer swyddogaethau a oedd gynt yn cael eu harfer gan yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol, yr Ysgrifennydd Gwladol, - Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Awdurdod perthnasol y mae unrhyw ran o'i ardal sydd yn ardal yr ACLI neu'n rhannu ffin ag ef, - unrhyw unigolyn (i) y mae'r cod cyfathrebiadau electronig yn berthnasol iddo yn rhinwedd cyfarwyddyd a roddwyd o dan Adran 106(3)(a) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, ac (ii) sy'n berchen ar gyfarpar cyfathrebiadau electronig wedi'i leoli mewn unrhyw ran o ardal yr ACLI (os yw'n hysbys), neu'n rheoli cyfarpar o'r fath, - os yw'n arfer swyddogaethau mewn unrhyw ran o ardal yr ACLI – (i) Bwrdd Iechyd Lleol (ii) unigolyn y mae trwydded wedi'i rhoi iddo o dan Adran 6(1)(b) neu (c) o Ddeddf Trydan 1989, (iii) unigolyn y mae trwydded wedi'i rhoi iddo o dan Adran 7(2) o Ddeddf Nwy 1986, (iv) darparwr gwasanaethau carthffosiaeth, (v) darparwr cyflenwad dŵr.

Mae'r tablau canlynol yn cynnwys y Cyrff Ymgynghori Penodol, Llywodraeth y DU, Cyrff Ymgynghori Cyffredinol ac Ymgynghoreion Eraill fel sy'n ofynnol gan GDLI Cymru. Mae'r tablau hefyd yn cynnwys unigolion/sefydliadau sydd naill ai wedi gofyn am gael eu cynnwys yn uniongyrchol neu wedi'u hawgrymu yn ychwanegiadau defnyddiol gan

drydydd parti. Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad wedi'i dargedu gyda rhanddeiliaid ar y Cytundeb Cyflenwi. Mae awgrymiadau ar gyfer ymgynghoreion ychwanegol wedi'u hychwanegu at y rhestr yma yn dilyn yr ymgynghoriad.

Bydd y grwpiau yma'n chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu'r CDLI a bydd y Cyngor yn sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys drwy gydol y broses.

Rhaid pwysleisio fod y rhestr yma ddim yn hollgynhwysfawr neu'n gyfyngedig. Mae'r Cyngor yn croesawu pob awgrym, naill ai'n uniongyrchol gan sefydliadau eu hunain neu unigolion, am unrhyw grŵp, sefydliad neu gorff sydd â diddordeb a hoffai gael eu cynnwys ar y gronfa ddata. Rydyn ni'n rhagweld y bydd y rhestr yn parhau i dyfu drwy gydol y broses o ddatblygu'r CDLI.

Mae'r Cyngor yn cynnal Cronfa Ddata Ymgynghori ar y CDLI, sy'n cynnwys y rheiny sydd â diddordeb. Mae'r Cyngor yn fodlon cynnwys unrhyw unigolyn sy'n dymuno derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am y broses o lunio'r CDLI.

Os yw unrhyw sefydliad/unigolyn am gael ei dynnu o gronfeydd data'r CDLI, dylen nhw gysylltu â'r Garfan Cynllunio Datblygu yn uniongyrchol.

Ar gamau paratoi'r Cynllun, bydd y Cyngor yn ymgynghori â'r cyrff ymgynghori isod:

Cyrff Ymgynghori Penodol:

Cyrff Ymgynghori Penodol (gan gynnwys adrannau Llywodraeth y DU)
British Telecom
Cadw
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS)
Adran dros Drafnidiaeth
Dŵr Cymru
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent
Y Swyddfa Gartref
Y Weinyddiaeth Amddiffyn
Cwmni'r Grid Cenedlaethol CCC
National Grid Wireless
Cyfoeth Naturiol Cymru
Network Rail Infrastructure Limited
Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Cwmnïau Telathrebu (gan gynnwys EE, Vodafone, O2, Three, Tesco Mobile, NTL, Open Reach a Virgin Media)
Transco
Wales and West Utilities
Llywodraeth Cymru (gan gynnwys yr Is-adran Gynllunio)
Dŵr Cymru
Western Power Distribution

De-ddwyrain Cymru ac Awdurdodau Lleol a Chyrff Eraill
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
Panel Cynllunio Strategol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (pan fydd wedi'i sefydlu)
Dinas Cyngor Caerdydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Sir Casnewydd
Cyngor Sir Powys
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Cyngor Bro Morgannwg

Cynghorau Tref a Chymuned yn Rhondda Cynon Taf
Cyngor Cymuned y Gilfach-goch
Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn
Cyngor Cymuned Llanharan
Cyngor Cymuned Llanhari
Cyngor Cymuned Llantrisant
Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdref
Cyngor Cymuned Pont-y-clun
Cyngor Tref Pontypridd
Cyngor Cymuned y Rhigos
Cyngor Cymuned Tonyrefail
Cyngor Cymuned Ynys-y-bwl a Choed y Cwm

Cynghorau Cymuned mewn Awdurdodau Cyfagos
Cyngor Cymuned Cwm Aber
Cyngor Cymuned Blaengwrach
Cyngor Cymuned Llangrallo Uchaf
Cyngor Tref Glyn-nedd
Cyngor Cymuned Llanfrynach
Cyngor Cymuned Llangan
Cyngor Cymuned Nelson
Cyngor Cymuned Cwm Ogwr
Cyngor Tref Pencoed
Cyngor Cymuned Pendeulwyn
Cyngor Cymuned Penllyn
Cyngor Cymuned Pentyrch
Cyngor Cymuned Penyrheol, Trecenydd ac Energlyn
Cyngor Cymuned Llanbedr-y-Fro
Cyngor Cymuned Tongwynlais
Cyngor Cymuned Llanddunwyd

Cyngor Cymuned Ystradfellte a Phontneddfechan

Cyrrff Ymgynghori Cyffredinol:

Ymgynghoreion Cyffredinol – Sefydliadau Gwirfoddol yn RhCT
Age Connects Morgannwg
Canolfan Cyngor ar Bopeth Rhondda Cynon Taf
Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol – Prosiect Ieuencid Brynrhedyn
Groundwork Trust Wales
Home-Start Rhondda Cynon Taf
Interlink RhCT
Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau Pen-y-waun
Trafnidiaeth Gymunedol TraVol
Valleys Kids/Plant y Cymoedd
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cymorth i Fenywod RhCT

Ymgynghoreion Cyffredinol – Grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig
Friends, Families and Travellers
Sipsiwn a Theithwyr Cymru
Urdd Siewmyn Prydain Fawr (Cymru a Gogledd Iwerddon)
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cyngor y Sipsiwn
Ffederasiwn Cenedlaethol Grwpiau Cyswllt Sipsiwn (Cymru)
Prosiect Diwygio'r Gyfraith i Deithwyr
Travelling Ahead
Cyngor Cydraddoldeb Hiliol y Cymoedd (VALREC)

Ymgynghoreion Cyffredinol – Sefydliadau Crefyddol
Canolfan Bwdhaidd Caerdydd
Yr Eglwys Gatholig yng Nghymru a Lloegr
Mudiad Efengylaidd Cymru
Neuadd y Deyrnas Tystion Jehofa, Meisgyn, Pont-y-clun
Cynulliad Tystion Jehofa Aberpennar
Cyngor Mwslimiaid Cymru
Cynulliad Tystion Jehofa Pontypridd
Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Corff Cynrychioliadol yr Eglwys yng Nghymru
Cynulliad Tystion Jehofa Cwm Rhondda
Cymdeithas Bedyddwyr De Cymru
St Elvans, Aberdare
St Fagans, Aberdare
Eglwys Apostolaidd y DU
Y Ganolfan Islamaidd, Aberdâr
Byddin yr Iachawdwriaeth
Crynwyr Trealaw

Cenhadaeth Islamaidd y DU
Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig
Synod Cymru – yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru

Ymgylgoreion Cyffredinol – Grwpiau Anabledd
Accessible Wales
Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain (Cymru)
Disability Arts Cymru
Disability Law Service
Disability Resource Centre
Comisiwn Hawliau Anabledd yng Nghymru
Chwaraeon Anabledd Cymru
Anabledd Cymru
Pwyllgor Cynghori ar Drafnidiaeth i Bobl Anabl
Cŵn Tywys y Deillion (gan gynwys Cymru)
Anabledd Dysgu Cymru
Mencap Cymru
Multiple Sclerosis Society Cymru
National Federation of the Blind
Partially Sighted Society
Grŵp Mynediad Rhondda Cynon Taf
Pobl yn Gyntaf Rhondda Cynon Taf
RNIB Cymru
Sense Cymru
Cyngor Cymru i Bobl Fyddar
Cyngor Cymru i'r Deillion
Whizz-Kidz

Ymgylgoreion Cyffredinol – y Celfyddydau a Diwylliant
Clymu Celf
Y Ffatri Gelf
Cymdeithas yr Iaith
Colliseum Theatre
Colstars Theatre
LMT Academy of Performing Arts
Menter Iaith
Tŷ Model, Llantrisant
Canolfan Gelf y Miwni
Celfyddydau Cymuned Rhondda Cynon Taf
Grŵp Theatr Cwm Rhondda
Showcase Sioegerdd
Theatr Spectacle Cyf
Stagecoach Performing Arts, Pontypridd
Stardreams Musical Theatre Company
Theatres Trust
Urdd Gobaith Cymru

Cyrff Ymgynghori Eraill:

Ymgynghoreion eraill fel sydd wedi'u nodi yn Llawlyfr y CDLI	
Gweithredwyr Meysydd Awyr - Maes awyr Caerdydd	Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau
Cymdeithas Agregau Prydain	Clymblaid Diwygio'r Gyfraith Sipsiwn a Theithwyr
Arolwg Daearegol Prydain	Cyngor y Sipsiwn
Glandŵr Cymru	Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Cyddfederasiwn Diwydiant Prydain	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
Canolfan Ecoleg a Hydroleg	Sefydliad y Peirianwyr Sifil
Siambrau Masnach	Cymunedau Lleol, grwpiau cadwraeth ac amwynder a Chymdeithasau Dinesig – gweler y rhestr ar wahân isod
Y Sefydliad Tai Siartredig	Gweithredwyr Trafnidiaeth Lleol - gweler y rhestr ar wahân isod
Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff	Mineral Products Association Wales
Awdurdod Hedfan Sifil	Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru
Awdurdod Glo	National Grid
Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol	Un Llais Cymru
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad	Cymorth Cynllunio Cymru
Swyddfa Ystad y Goron	Yr Heddlu
Comisiwn Dylunio Cymru	Daliadau Eiddo Swyddfa'r Post
Comisiwn Hawliau Anabledd	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Anabledd Cymru	Rail Freight Group
Pwyllgor Cyngori ar Drafnidiaeth i Bobl Anabl	Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig
Cwmnïau Trydan, Nwy a Thelathrebu – gweler y rhestr ar wahân isod	Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru
Grwpiau amgylcheddol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol – gweler y rhestr ar wahân isod	Cyngor Chwaraeon Cymru
Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol (Gwastraff)	Cwmnïau Trenau – gweler y rhestr ar wahân isod
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Undeb Amaethwyr Cymru	Cyswllt Amgylchedd Cymru
Ffederasiwn Busnesau Bach	Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru

Meysydd Chwarae	Comisiynydd y Gymraeg
Y Gwasanaeth Tân ac Achub Gwasanaethau Ambiwylans Cymru Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	Dŵr Cymru

Masnachol	
Aberdare BID	Sefydliad y Cyfarwyddwyr, Cymru
Siambr Fasnach Aberdâr	AGB Pontypridd
Busnes mewn Ffocws	Consortiwm Manwerthu
Busnes Cymru (Canolfan Ranbarthol De Cymru)	Siambr Fasnach De Cymru
Campaign for Real Ale (CAMRA)	Fforymau Canol Trefi
Siambr Fasnach	Twf Busnes Trefforest
Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru	

Grwpiau Amgylcheddol – lleol, cenedlaethol a rhanbarthol	
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	Cymdeithas Rhandiroedd Cenedlaethol
Canolfan Ecoleg a Hydroleg, Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Coed Cymru, Welsh Woodlands and Timber	Cymdeithas Mannau Agored
Cyfeillion y Ddaear (Cymru)	Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru (Morgannwg)
Clwb Adar Morgannwg	Cyswllt Amgylchedd Cymru
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent	Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru
Just Mammals Consultancy	Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru
RSPB Cymru	Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir

Darparwyr Trafnidiaeth Lleol gan gynnwys y Rheilffyrdd	
Bus Users UK	Cwmni Network Rail
Cardiff Bus Company	New Adventure Travel
Edwards Coaches	Stagecoach De Cymru
First Call Travel	Thomas of Rhondda
First Cymru Buses	Trafnidiaeth Cymru
